



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Teithio i lechyd Gwell

Llyfryddiaeth, Cysylltiadau
ac Adnoddau Defnyddiol a Atodiad 1-6

Gorffennaf 2015

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Dogfennau Ategol

Llyfryddiaeth

Cysylltiadau ac Adnoddau Defnyddiol

Atodiad 1 – Teithio i Ddyfodol Gwell – Amcanion Iechyd

Atodiad 2 – Gwaith a wnaed i baratoi'r Canllawiau drafft yma

Atodiad 3 – Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Atodiad 4 – Enghraifft o Adran Iechyd mewn Protocol ar Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod

Atodiad 5 – Ffurflen Enghreifftiol ar gyfer Asesiad o Anghenion Iechyd – i gael mwy o wybodaeth ynghylch defnyddio'r ffurflen hon, cyfeiriwch at y prif ganllawiau

Atodiad 6 – Cwestiynau wrth ddatblygu gwasanaethau i BILlau

Llyfryddiaeth

Nid yw'r llyfryddiaeth hon yn gynhwysfawr. Mae ystod sylweddol o gyhoeddiadau eraill ar gael ar-lein ond bu'r dogfennau canlynol yn amhrisiadwy wrth baratoi'r canllawiau hyn. Mae wedi'i threfnu'n adrannau sydd wedi'u bwriadu i roi cymorth i ymarferwyr ddeall Sipsiwn a Theithwyr a'r materion iechyd perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau ac erthyglau canlynol i'w cael ar-lein. Fel arall bydd angen i chi geisio benthyciad rhwng llyfrgelloedd gan wasanaethau llyfrgell eich sefydliad.

Datblygu Cymhwysedd Diwylliannol

1. Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Hydref 2013. *Pecyn e-ddysgu Fy Nhrin yn Deg*. Mynediad trwy borth Learning@NHS Wales, ewch at www.mle.wales.nhs.uk a chwiliwch am 'Fy Nhrin yn Deg'.
2. Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, 2014. *Working with Vulnerable Groups: a Clinical Handbook for GPs - Pennod 4, Caring for Travelling Communities in Primary Care*.
3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. *Making Links: Gypsy and Traveller Myth Buster*
4. Cyngor Dinas Bryste, Ebrill 2010. *Gypsies and Travellers: Who they are – not what they are perceived to be*
5. Cyngor Dinas Bryste, Ebrill 2010. *Gypsies and Travellers: Frequently asked questions, Myths...and the facts*
6. Cyngor Dinas Caergaint. *Gypsies and Travellers – The Truth*

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

7. Francis, 2013. *Developing the Cultural Competence of Health Professionals Working with Gypsy Travellers*
8. Friends, Families and Travellers. *Working with Gypsies and Travellers – A Brief Note for Health Practitioners*
9. Friends, Families and Travellers. *Gypsy and Traveller Health*
10. Friends, Families and Travellers. *Some Common Myths about Gypsies and Travellers*
11. Llywodraeth Cymru, Chwefror 2014. *Teithio gyda'n gilydd: Adnoddau i hyrwyddo'r broses o integreiddio diwylliant Sipsiwn a Theithwyr i'r Cwricwlwm Cenedlaethol*
12. LeedsGate. *Engaging with Gypsies and Travellers as part of your work.*
13. Pecyn Cwestiynau a Ofynnir yn Aml Travellers Times Online. *Gypsies and Travellers: Their lifestyle, history and culture*
14. Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd. *Cyflwyniad: Who are Gypsies and Travellers?*
15. Nursing Times, Hydref 2011. *Attitudes towards Gypsy Travellers*
16. Papadopoulos, 2006. *Transcultural Health and Social Care – Development of Culturally Competent Practitioners*
17. Uned Cynhwysiant Cymdeithasol Cyngor Dinas Plymouth, Awst 2006. *Gypsy and Travellers Myth Buster Briefing Note 11*
18. Uned Cynhwysiant Cymdeithasol Cyngor Dinas Plymouth, Awst 2006. *Gypsy and Traveller Culture Briefing Note 17*
19. Van Cleemput, Parr, Thomas, Peters a Cooper, 2007. *Health-related Beliefs and Experiences of Gypsies and Travellers: A Qualitative Study*
20. Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol GIG Swydd Gaergrawnt, 2008. *An Insight into the Health of Gypsies and Travellers – a Booklet for Health Professionals in Cambridgeshire*

Cyfarwyddyd Ymarfer a Gwybodaeth

21. Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Medi 2013. *Improving Access to Health Care for Gypsies and Travellers, Homeless People and Sex Workers – an Evidence-based Commissioning Guide for Clinical Commissioning Groups and Health and Wellbeing Boards*
22. Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Plymouth a Dyfnaint, Hydref 2013. *Devon Gypsy and Traveller Project 2012/13: Quitting Smoking and Improving Health and Wellbeing*
23. Cyngor Dinas Bryste, Ebrill 2010. *Gypsy and Traveller Services Phone Book*
24. Diverse Cymru. *A few ideas on how to get the best from your GP.*

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

25. Faculty of Homeless and Inclusion Health, 2014. *Service Standards for Commissioners and Providers.*
26. Friends, Families and Travellers. *Don't leave it too late: Diabetes – A Guide for Gypsies, Roma and Travellers*
27. Friends, Families and Travellers. *Good Practice Examples in Healthcare Provision for Gypsies and Travellers*
28. Friends, Families and Travellers. *A Collaborative Programme to Improve the Oral Health of the Gypsy and Travelling Communities in Sussex*
29. Friends, Families and Travellers. *Accessing Healthcare.*
30. Friends, Families and Travellers. *Having a Baby.*
31. Friends, Families and Travellers. *Vaccinations.*
32. Greenfields. *Bath and North East Somerset Gypsy, Traveller, Boater, Showman and Roma Health Survey 2012-13.*
33. Health for All Children
34. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awst 2009. *Healthcare Planning and Service Development Guidance for Specific Vulnerable Groups in Wales*
35. Llywodraeth Cymru, 2009. *Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed Penodol - Safonau 2009 - 2014*
36. Llywodraeth Cymru, 2009. *Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed Penodol - Safonau 2009 - 2014, Diweddariad*
37. Llywodraeth Cymru, 2013. *Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed Penodol: Safonau*
38. Llywodraeth Cymru, Hydref 2013. *Casglu data am gydraddoldebau - Safonau sydd wedi'u cysoni ac arferion gorau*
39. Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013. *Canllawiau ar Reoli Gwersyllai Diawdurdod*
40. National Inclusion Health Board, Chwefror 2014. *Inclusion Health – Inclusive Practice*
41. National Inclusion Health Board, Chwefror 2014. *Inclusion Health – Promising Practice*
42. National Inclusion Health Board, Chwefror 2014. *Inclusion Health – Commissioning Inclusive Services*
43. National Inclusion Health Board, Chwefror 2014. *Inclusion Health – Identifying Key Vulnerable Groups in Data Collections*
44. Plant Yng Nghymru. *Gweithdrefnau a Phrotocolau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.*
45. Shelter, Chwefror 2008. *Good Practice Guide: Working with Housed Gypsies and Travellers*

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

- 46. Women's Health and Equality Consortium and Maternity Action, Chwefror 2012. *Guidance for Commissioning Health Services for Vulnerable Migrant Women*
- 47. Yr Adran Iechyd, Mai 2009. *Primary Care Service Framework: Gypsy and Traveller Communities*

Ymchwil

- 48. Bristol MIND, Chwefror 2008. *Do Gypsies, Travellers and Show People get the support they need with Stress, Depression and Nerves?*
- 49. Francis, 2013. *Developing the Cultural Competence of Health Professionals Working with Gypsy Travellers*
- 50. Friends, Families and Travellers, Awst 2010. *Fair Access for All? Gypsies and Travellers in Sussex, GP Surgeries and Barriers to Primary Healthcare*
- 51. Greenfields a Home, 2006: *Assessing Gypsies and Travellers Needs: Partnership working and 'The Cambridge Project'*
- 52. Greenfields, 2009: *Reaching Gypsies and Travellers*
- 53. Hodgins, Millar a Barry, Hydref 2005. *'its all the same no matter how much fruit or vegetables or fresh air we get'; Traveller women's perceptions of illness causation and health inequalities*
- 54. Hodgins a Close, Hydref 2011. *Lancashire's Hidden Stories – Experience of Disability among Gypsy Roma and Travellers; Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender; and Black and Minority Ethnic Communities*
- 55. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mawrth 2012. *Developing Health Indicators for Gypsies and Travellers: Scoping Document*
- 56. Jamal (i Lywodraeth Cymru), Gorffennaf 2013: *What are the barriers faced by Gypsy and Traveller communities in accessing healthcare services in Wales? A qualitative study*
- 57. Journal of Public Health, Mai 2013. *Mapping the Gypsy Traveller Community in England: what we know about their health service provision and childhood immunization uptake.*
- 58. Leeds Gypsy and Traveller Exchange/Real Improvement, Mai 2013. *Gypsy and Traveller Health – Who Pays?*
- 59. Llywodraeth Cymru, 2003. *Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Theithwyr*
- 60. Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2005. Rhaglen ASERT Iechyd Cymru, *Gwella Tystiolaeth Hybu Iechyd ar Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig, Ffoaduriaid/Ceiswyr Lloches a Sipsiwn-Teithwyr – Adolygiad o'r Llenyddiaeth ar Ddaliadau Iechyd, Statws*

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Iechyd a Defnyddio Gwasanaethau yn y Boblogaeth Sipsiwn-Teithwyr ac o Ymyriadau Gofal Iechyd Priodol

61. Llywodraeth Cymru, 2013. *Review of the Evidence of Inequalities in Access to Health Services in Wales for BME Groups, Asylum Seekers and Refugees and Gypsy Traveller Communities* – i'w gyhoeddi yn hydref 2014
62. Llywodraeth Cymru, 13 Rhagfyr 2013. *Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr Gorffennaf 2013 Diwygiedig*
63. Llywodraeth Cymru, 27 Mawrth 2014. *Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr Ionawr 2014*
64. Llywodraeth Cymru, 26 Mawrth 2015. *Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr Ionawr 2015*
65. Llywodraeth Cymru, 2015. *Rhaglen Plentyn Iach Cymru*
66. McLeish, 2008. *Gypsy and Traveller Women: the road to better care*
67. Paediatric Nursing, Ebrill 2010. *Nurses network shines light on the health issues of Traveller and Gypsy Children*
68. Papadopoulos a Lay, 2007: *The health promotion needs and preferences of Gypsy Travellers in Wales*
69. Peters, Parry, Van Cleemput a Moo, 2009: *Health and use of health services: a comparison between Gypsies and Travellers and other ethnic group.*
70. Race Equality Foundation, Tachwedd 2008. *The Health of Gypsies and Travellers in the UK*
71. Roma Support Group, 2012. *Roma Mental Health Advocacy Project: Evaluation Report*
72. Smith a Ruston, 2013: *'if you feel that nobody wants you, you'll withdraw in to your own'* – *Gypsies and Travellers, networks and healthcare utilisation*
73. Van Cleemput, 2009: *Abstract of thesis: Gypsies and Travellers accessing primary health care: interactions with health staff and requirements for 'culturally safe' services*
74. Van Cleemput, 2007: *Health Impact of Gypsy Sites Policy in the UK*
75. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2009. *Inequalities experienced by Gypsy Traveller Communities: A Review – Health, Substance Abuse, Self Harm, Social Work and Domestic Violence*
76. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2009. *Inequalities experienced by Gypsy Traveller Communities: A Review – Racism, Human Rights, Gender, Age, Disability and Sexual Orientation*

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

77. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011. *Wales Local Authority Breakdown, White: Gypsy or Irish Traveller*
78. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2014. *Datganiad: 2011 Census Analysis, What does the 2011 Census tell us about the Characteristics of Gypsy or Irish Travellers in England and Wales?*
79. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, NOMIS cyrchwyd ar 6 Mai 2014. *Awdurdodau Lleol Cymru (Manwl), Hunaniaeth Genedlaethol yn ôl Grŵp Ethnig*
80. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, NOMIS cyrchwyd ar 20 Mai 2014. *Awdurdodau Lleol Cymru (Manwl), Deiliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig*
81. Yr Adran Iechyd, 2010. *Developing the Cultural Competence of Health Professionals Working with Gypsy Travellers*
82. Yr Adran Iechyd, Hydref 2004. *The Health Status of Gypsies and Travellers in England*

Y Gyfraith

83. Deddf Cydraddoldeb 2010 gan gynnwys y broses ar gyfer cwynion dan y Ddeddf.
84. Mae Rhan 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn nodi swyddogaethau BILlau mewn perthynas â gwasanaethau meddygol sylfaenol a gwasanaethau meddygon teulu. Mae adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob BILl naill ai ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal ei hun, neu sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan ddarparwr arall (h.y. Meddygon Teulu) trwy ymrwymo i drefniadau cytundebol h.y. y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS).
85. Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=480>
86. Liberty, Awst 2008. *Your Rights – Rights of Gypsies and Travellers – The Right to Healthcare*
87. Liberty, Awst 2008. *Your Rights – Rights of Gypsies and Travellers – The Right to Healthcare – Access to Healthcare*

Strategaeth

88. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mehefin 2014: *Achieving prudent healthcare in NHS Wales*
89. Llywodraeth Cymru, Medi 2011. *Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru*
90. Llywodraeth Cymru, 2011. *Teithio i Ddyfodol Gwell: Sipsiwn a Theithwyr – Framwaith ar gyfer Gweithredu*

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

91. Llywodraeth Cymru, 2013. *Teithio i Ddyfodol Gwell: Sipsiwn a Theithwyr – Fframwaith ar gyfer Gweithredu a Chynllun Cyflenwi, Diweddariad Tachwedd 2013*

Cysylltiadau ac Adnoddau Defnyddiol

Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan

<http://www.allwaleshelpline.org.uk/>

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n ffonio'r llinell yn unigolion sydd â phrofiad o gamdriniaeth yn y cartref neu drais rhywiol, sy'n pryderu am eu diogelwch, sydd angen mynediad at gyngor neu gymorth ar frys, neu sy'n ceisio gwybodaeth am eu hawliau a'u hopsiynau. Rydym hefyd yn croesawu ac yn derbyn galwadau gan deulu, ffrindiau a chydweithwyr pobl sy'n dioddef o gamdriniaeth yn y cartref neu drais rhywiol ac sy'n ffonio i ofyn am wybodaeth.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Hyfforddiant Cydraddoldeb

<http://www.equalityhumanrights.com/cy/hafan/cyngor-ac-arweiniad/guidance-for-employers/polisau-cydraddoldeb-hyfforddiant-cydraddoldeb-a-monitro/monitro-r-gweithlu>

Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd

<http://www.wcva.org.uk/members-partners/nvo-search/detail?id=930266&seq.lang=cy-GB>

Prosiect Undod – sy'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro

Catherine Fortune RN, Gweithiwr Iechyd a Lles, Prosiect Undod, Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Cil-maen, Penfro, Sir Benfro, SA71 4LS. catherine.fortune@pembrokeshire.gov.uk a 01646 680294

Prosiect Bridges (a letyir gan bartneriaeth Merthyr Tudful Mwy Diogel, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH, 01685 353999). Mae tudalen Facebook hefyd sy'n dwyn y teitl Bridges Project Merthyr Tydfil a chyfrif Twitter @Bridges MT.

Prosiect yw hwn sy'n ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ym Merthyr Tudful i feithrin hyder, datblygu sgiliau a chreu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â darparwyr gwasanaethau. Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol hefyd.

Dynamix

www.dynamix.coop/ / admin@dynamix.coop / 01792 466231

Cwmni cydweithredol di-elw yng Nghymru sy'n darparu hyfforddiant yw Dynamix, ac mae'n derbyn cyllid i ddarparu nifer gyfyngedig o gyrsiau hyfforddi ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol ledled Cymru a'r rheiny'n ymdrin ag ymwybyddiaeth wrth weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr a chynllunio gwasanaethau ar eu cyfer. Caiff y cyrsiau hyn eu cynhyrchu a'u darparu ar y cyd gydag aelodau o'r gymuned. Ariennir y gwaith hwn gan Gronfa Cydraddoldebau a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru.

Travelling Ahead

<http://www.travellingahead.org.uk/oursite>

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r adnodd ar-lein yma'n rhoi cymorth i Sipsiwn a Theithwyr ifainc yng Nghymru gael llais a chyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Travellers Times

www.travellerstimes.org.uk

Mae'r adnodd ar-lein yma'n darparu newyddion, lluniau, fideo, barn ac adnoddau gan y cymunedau Teithwyr Sipsi a Roma.

Friends, Families and Travellers

<http://www.gypsy-traveller.org/your-family/health/>

Nod cyffredinol y sefydliad yw gweithio tuag at gymdeithas fwy teg lle mae gan bawb yr hawl i deithio heb ofni'n barhaus y byddant yn cael eu herlid oherwydd eu ffordd o fyw. Mae Friends, Families and Travellers wedi ennill y Safon Gwybodaeth ac maent yn darparu gwybodaeth ddibynadwy sy'n gywir yn glinigol a honno wedi'i hanelu at anghenion Sipsiwn a Theithwyr.

Travellers Health Partnership

<http://www.grtleeds.co.uk/Health/index.html>

Mae'r adnodd ar-lein yma'n darparu amrywiaeth eang o wybodaeth ac adroddiadau er budd Sipsiwn a Theithwyr yn ardal Leeds. Gellir trosglwyddo'r adnoddau'n rhwydd i'w defnyddio yng Nghymru.

Gypsy and Traveller Exchange

<http://www.leedsgate.co.uk/>

Nod cymdeithasol Leeds Gypsy and Traveller Exchange yw gwella ansawdd bywyd i bobl o gymuned y Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

Traveller Movement

<http://www.travellermovement.org.uk>

Mae'r sefydliad hwn yn cynnal nifer o weithgareddau i gefnogi Teithwyr yn y DU, o gyngor ynghylch ymchwil a pholisi ar draws ystod o feysydd polisi cyhoeddus i hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a phrosiectau ac ymgyrchoedd eraill. Mae hefyd yn darparu nifer o adnoddau am Deithwyr a'u ffordd o fyw.

Roma Support Group

<http://romasupportgroup.org.uk>

Cenhadaeth y Roma Support Group yw gwella ansawdd bywyd ar gyfer ffoaduriaid ac ymfudwyr Roma trwy eu helpu i oresgyn rhagfarn, arwahanrwydd a sefyllfaoedd sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Rydym hefyd yn amcanu at wneud y cyhoedd yn ymwybodol o ddiwylliant a threftadaeth Roma a sefyllfa bresennol ffoaduriaid ac ymfudwyr Roma yn y DU trwy ddigwyddiadau a chyhoeddiadau diwylliannol ac addysgiadol.

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

MECOPP Carers Project

<http://www.mecopp.org.uk>

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi gofalwyr ethnig lleiafrifol gan gynnwys gofalwyr o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr mewn rhannau gwledig a threfol o'r Alban.

Atodiad 1 – *Teithio i Ddyfodol Gwell* – Amcanion Iechyd

Amcan 13

Gwella canlyniadau iechyd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a deall yn well beth yw anghenion y gymuned o ran iechyd.

Amcan 14

Sicrhau bod anghenion iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn derbyn sylw wrth ddatblygu polisi iechyd strategol cenedlaethol a lleol, a bod y gymuned yn cael cyfle i gyfrannu at bolisiau a mentrau iechyd a fydd yn effeithio arni.

Amcan 15

Gwneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy hygyrch i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Amcan 16

Sefydlu gwybodaeth sylfaenol am statws iechyd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, a sefydlu system i barhau i gasglu data am iechyd Sipsiwn a Theithwyr.

Atodiad 2 – Gwaith a wnaed i baratoi'r Canllawiau drafft yma

Mae'r Atodiad hwn yn rhestru gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gyflawnwyd cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ffurfiol hon ac y bwriedir eu cyflawni yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ei ôl. Bydd yn cael ei ddiweddarw cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol.

Ymweliadau â Safleoedd

Mae ymweliadau â naw safle 'awdurdodedig' wedi cael eu cynnal (dau yng Nghaerdydd, un ym Mlaenau Gwent, un yng Ngwynedd, un yn Abertawe, un yn Wrecsam, un yn Sir Gâr a dau yn Sir Benfro). Mae'r holl safleoedd hyn ac eithrio'r safleoedd yn Sir Benfro yn cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol ac mae rheolwyr safle wedi'u neilltuo i fod yn bresennol ar y safle. Mae gan y safleoedd yn Sir Benfro reolwr safle ond nid ydynt yn bresennol ar y safle. Fe ymwelwyd hefyd â thri safle diawdurdod a oddefir (dau yng Nghasnewydd ac un yn Abertawe) ac un safle preifat (yng Nghasnewydd). Cyn rhai o'r ymweliadau, gofynnodd rheolwyr y safleoedd i ni gylchredeg nodyn a oedd yn rhestru pwrpas yr ymweliad ac ystod o gwestiynau i'r preswylwyr. Fe wnaed hyn. Nid oedd y preswylwyr ar safle a reolir gan yr awdurdod lleol yn Rhondda Cynon Taf yn dymuno cwrdd ond roeddent yn hapus i ateb cwestiynau trwy reolwr y safle.

Mae'r ymweliadau wedi cadarnhau llawer o'r ymchwil: bod yr holl breswylwyr y siaradwyd gyda hwy ar y safleoedd awdurdodedig a diawdurdod wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu, deintyddion ac optegwyr ond bod angen gwneud gwaith sylweddol i roi anogaeth i wella iechyd a deall eu hiechyd eu hunain; i feithrin hyder ynglŷn â chyfleu anghenion iechyd i

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

ymarferwyr ac i feithrin hyder ynglŷn â manteision y gwasanaethau iechyd a ddarperir. Roedd negeseuon nodedig eraill yn ymwneud â'r hiliaeth a'r driniaeth wahaniaethol y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu profi o ddydd i ddydd ac nid dim ond wrth ymwneud â gwasanaethau iechyd; y cyfeiriad meddwl o ran byw o ddydd i ddydd, hyd yn oed wrth fyw mewn llety sefydlog a sut y mae hyn yn effeithio ar ddewisiadau mewn perthynas â bwyd ac ysmegu; a phwysigrwydd y teulu o ran gofalu am unrhyw un sy'n sâl neu y mae angen cymorth o fath arall arno/arni.

Mae'r preswylwyr yn Sir Benfro a Sir Gâr yn cael budd o'r ffaith bod Gweithiwr Iechyd a Lles llawn-amser wedi'i neilltuo i fod ar gael iddynt, sef un o'r pedwar aelod o staff sy'n gweithio i Brosiect Undod, a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr ac a sefydlwyd i ddarparu ystod o wasanaethau ar gyfer y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal hon ac yn ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gâr a Cheredigion. Mae trefniadau cymorth tebyg yn bodoli ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ond am ddau ddiwrnod yr wythnos.

Cyfarfodydd

Rhoddwyd cyflwyniadau yng nghyfarfodydd Pwyllgor Deintyddol Cymru, Pwyllgor Optometreg Cymru, y Rheolwyr Iechyd Meddwl Cyffredinol, Grŵp Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan a'r Grŵp Cyngori Arbenigol Cenedlaethol Meddygon Teulu.

Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gydag Optometreg Cymru, Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd, Achub y Plant/Travelling Ahead, Prosiect Undod, Prosiect Bridges (sy'n rhoi cymorth i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ym Merthyr Tudful), Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol Gwent Aneurin Bevan sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed, Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, dau Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg ac ystod o swyddogion yn Llywodraeth Cymru a swyddogion iechyd proffesiynol.

Er mwyn cyfrannu at yr ymgynghoriad ffurfiol ac ar wahoddiad y Cadeirydd, Julie Morgan AC, cynhaliwyd cyfarfod Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr gydag aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a darparwyr cymorth. Y Dirprwy Weinidog Iechyd, Dr Vaughan Gething AC, oedd y prif siaradwr.

Monitro Ethnigrwydd

Datgelodd gwaith a wnaed i baratoi'r canllawiau hyn fod y saith BILI i gyd yn casglu data am ethnigrwydd ond nad oes system wedi'i safoni'n bodoli. Roedd amrywiadau eang yn y disgrifiadau o ethnigrwydd a ddefnyddir rhwng ac o fewn ardal pob BILI. Er enghraifft, sut y mae cofnodion cleifion yn amrywio yn lleoliadau'r BILlau i gleifion mewnol ac mewn practisiau meddygon teulu. Roedd hefyd yn aneglur a oedd, a sut oedd y data'n cael ei ddefnyddio i oleuo'r broses o ddatblygu gwasanaethau. Datgelwyd hefyd nad yw'r ffurflen ar gyfer cofrestru dros dro gyda meddyg teulu'n cynnwys y cwestiwn am ethnigrwydd.

Ymgynghori anffurfiol

Cafodd papur a oedd yn amlinellu'r prosiect ac yn ceisio ymatebion i ystod o gwestiynau am ofal iechyd i Sipsiwn a Theithwyr ei gylchredeg i ystod o Bwyllgorau Iechyd statudol Llywodraeth Cymru lle nad oedd yn bosibl rhoi cyflwyniad yn eu cyfarfodydd. Roedd y rhain yn cynnwys Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru, Pwyllgor Meddygol Cymru ac Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru. Cafodd y papur ei anfon hefyd i'r Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl, y Pwyllgor Meddygon Teulu a'r Grwpiau Cyngori Arbenigol Cenedlaethol ar Ganser, Iechyd Meddwl, Pediatreg ac Iechyd Plant, Offthalmoleg, Iechyd y Cyhoedd ac Iechyd Menywod.

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Cafodd llythyr a oedd yn amlinellu'r prosiect ac yn ceisio ymateb cydgysylltiedig i ystod o gwestiynau am ofal iechyd i Sipsiwn a Theithwyr ei gylchredeg i Gyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl y saith BILL.

Atodiad 3 – Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Mae Rhan 12 o'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ymwneud â chofrestru cleifion gyda Chontractwyr sy'n Feddygon Teulu ac, i grynhoi, mae'n amodi fel a ganlyn:

1. Lle mae rhestr cleifion Contractwr yn agored, gall Contractwr dderbyn cais am le ar y rhestr a wnaed gan neu ar ran person ni waeth a yw'n byw yn ardal ei bractis neu wedi'i gynnwys, ar adeg ei gais, ar restr cleifion contractwr arall;

2. Lle mae rhestr cleifion Contractwr ar gau, ni all y Contractwr ond derbyn cais am le ar ei restr gan berson sy'n aelod agos o deulu claf cofrestredig, ni waeth a yw'n byw yn ardal ei bractis neu wedi'i gynnwys, ar adeg ei gais, ar restr cleifion contractwr arall;

3. Caiff cais am le ar restr cleifion ei wneud, yn amodol ar esemptiadau, trwy gyflwyno cerdyn meddygol neu ffurflen gais wedi'i llofnodi i safle'r practis.

4. Lle mae rhestr cleifion Contractwr ar agor, gall y Contractwr dderbyn person fel preswlydd dros dro ar yr amod ei fod wedi'i argyhoeddi bod y person –

(i) yn preswyllo dros dro i ffwrdd o'i fan preswyllo arferol a ddim yn cael "gwasanaethau hanfodol" dan unrhyw drefniant arall yn yr ardal y mae'n preswyllo dros dro ynddi; neu

(ii) yn symud o le i le a ddim yn byw yn unrhyw le am y tro.

Mae "gwasanaethau hanfodol" yn golygu'r gwasanaethau hynny a ddarperir yn ystod oriau craidd, sy'n ofynnol i reoli cleifion cofrestredig a phreswylwyr dros dro y Contractwr sydd, neu sy'n credu eu bod –

(i) yn sâl, gyda chyflyrau y disgwylir i bobl wella ohonynt fel rheol;

(ii) yn derfynol sâl;

(iii) yn dioddef clefyd cronig.

Hefyd, mae 'gwasanaethau hanfodol' yn cynnwys triniaeth a gofal parhaus, a thriniaeth frys ac angenrheidiol i berson y gofynnwyd i'r Contractwr roi triniaeth iddo oherwydd damwain neu achos brys mewn unrhyw le yn ardal ei bractis.

5. Ceir seiliau rhesymol sy'n caniatáu i Gontractwr wrthod cais am le ar ei restr cleifion neu gan breswlydd dros dro. Mae seiliau o'r fath yn cynnwys sefyllfa lle nad yw'r ymgeisydd yn byw yn ardal practis y Contractwr. Nid yw hil, rhyw, dosbarth cymdeithasol, oedran, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, edrychiad, anabledd neu gyflwr meddygol ymgeisydd yn seiliau dros wrthod cais.

6. Dan amgylchiadau penodol gall BILL aseinio claf newydd i restr cleifion Contractwr os yw rhestr y Contractwr ar agor, ac o dan amgylchiadau penodol cyfyngedig iawn gall hefyd aseinio claf newydd i restr cleifion Contractwr os yw rhestr y Contractwr ar gau.

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Atodiad 4 – Enghraifft o Adran Iechyd mewn Protocol ar Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod

Bydd BILI XXXX yn:

- asesu anghenion iechyd y Sipsiwn a'r Teithwyr ar y safleoedd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny gan yr awdurdod lleol;
- darparu adroddiad cryno cyffredinol ar gyfer yr awdurdod lleol fan bellaf 3 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y gwnaed y cais. Bydd yr adroddiad yn darparu datganiad cyffredinol yn unig i nodi pa un a oes unrhyw anghenion iechyd a allai atal camau troi allan ai peidio. Lle canfyddir anghenion iechyd a fyddai'n atal camau troi allan, bydd y datganiad yn cynnwys manylion y garafán/carafanau/teuluoedd y dylid eu gadael yn y fan a'r lle. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu wedyn ar gyfer yr awdurdod lleol gan y BILI fel rhan o'r drefn arferol a fyddai'n cynnwys cael cydsyniad gan unigolion y cynhaliwyd asesiadau iechyd ar eu cyfer. Bydd y datganiad a ddarperir ar ffurf sy'n addas i'w chyflwyno fel tystiolaeth mewn llys;
- monitro, diweddarau a rhannu gwybodaeth berthnasol gydag asiantaethau eraill;
- darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer yr aelodau o'r gymuned;
- cyfeirio ymholiadau gan y cyfryngau at yr awdurdod lleol, ond ymateb i unrhyw gwestiynau sydd o fewn y cylch gorchwyl iechyd.

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Atodiad 5 – Ffurflen Engbrefftio ar gyfer Asesiad o Anghenion Iechyd – i gael mwy o wybodaeth ynghylch defnyddio'r ffurflen hon, cyfeiriwch at y prif ganllawiau

Er mwyn gallu casglu gwybodaeth mor helaeth â phosibl ac o'r ansawdd gorau posibl, bydd yn bwysig bod y cwestiynau isod yn cael eu gofyn gan ymarferydd y mae'r aelod o'r gymuned yn ei (h)adnabod ac yn ymddiried ynddo/ynddi.

Cwestiwn	Nodwedd/Mesur	Ateb
Amdanoch chi		
Rhywedd	Gwryw	
	Benyw	
	Arall	
	Gwell gen i beidio â dweud	
Ydych chi'n dal i arddel y rhywedd a roddwyd ichi pan gawsoch chi eich geni?	Ydw	
	Nac ydw	
	Gwell gen i beidio â dweud	
Grŵp Oedran	0-5	
	5-15	
	16-24	
	25-34	
	35-44	
	45-54	
	55-64	
	65+	
Ethnigrwydd	Sipsi Romani (a oedd yn hanu o Ogledd India yn wreiddiol ac a elwir hefyd yn Sipsiwn Seisnig, Cymreig ac Albanaidd, Kale a Romanichal)	
	Teithiwr Gwyddelig	
	Teithiwr Cymreig/Albanaidd	
	Roma/Sinti	
	Nodwch y wlad yr ydych yn hanu ohoni os mai Roma ydych, e.e. Tsiec, Pwylaidd a.y.b.	
	Teithiwr Newydd	
	Pobl Ffair neu Bobl Sioe	
	Badwyr neu Gychwyr/Sipsiwn Dŵr	
	Arall – rhwch fanylion	
	Ble ydych chi'n byw?	Safle awdurdodedig awdurdod lleol
Safle diawdurdod – lle'r ydych yn berchen ar y tir ac yn disgwyl am ganiatâd cynllunio		
Safle diawdurdod – lle nad ydych yn berchen ar y tir, h.y. wrth ymyl y ffordd		

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

	Tir mewn perchnogaeth breifat â chaniatâd cynllunio	
	Tir mewn perchnogaeth breifat (yr ydych chi neu rywun arall yn berchen arno) heb ganiatâd cynllunio	
	Llety 'Brics a Morter' – (yr ydych yn berchen arno neu dŷ neu fflat rhent sy'n eiddo i awdurdod lleol, cymdeithas dai neu landlord preifat)	
	Iard Person Sioe	
	Bad/Cwch	
	Pabell grom/strwythur dros dro	
	Arall – rhowch fanylion e.e. tir teuluol 'o'r golwg'	
Sgiliau cyfathrebu		
Beth fyddai'r ffordd orau o gyfathrebu gyda chi?	A allwn anfon llythyrau ynteu a yw cyfathrebu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn well?	
Pa mor dda ydych chi'n gallu siarad Saesneg neu Gymraeg?	Da – Dydych chi ddim yn cael unrhyw anhawster deall a defnyddio Saesneg (neu Gymraeg) mewn sefyllfaoedd pob dydd	
	Gweddol – Rydych yn deall rhywfaint o'r hyn sydd wedi ei ysgrifennu ac yn cael ei ddweud ond byddai arnoch angen cymorth gyda rhai sefyllfaoedd, e.e. wrth weld meddyg teulu.	
	Ychydig/Dim – Rydych yn deall ychydig neu ddim o'r hyn sy'n cael ei ddweud	
	Gweddol – Rydych yn deall rhywfaint o'r hyn sydd wedi ei ysgrifennu ac yn cael ei ddweud ond byddai arnoch angen cymorth gyda rhai sefyllfaoedd, e.e. gyda llythyrau o'r ysbyty neu oddi wrth eich meddyg teulu.	
	Ychydig/Dim – Rydych yn deall ychydig neu ddim o'r hyn sydd wedi ei ysgrifennu	
	Gweddol – Rydych yn gallu ysgrifennu	

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

	llythyrau sylfaenol neu lenwi ffurflenni sylfaenol	
	Ychydig/Dim – Ychydig o sgiliau ysgrifennu sydd gennych neu does gennych chi ddim sgiliau ysgrifennu o gwbl	
Cael mynediad at ofal iechyd		
Ydych chi wedi'ch cofrestru gyda meddyg teulu?	Ydw neu Nac ydw	
Ydych chi wedi'ch cofrestru gyda deintydd?	Ydw neu Nac ydw	
Ydych chi wedi'ch cofrestru gydag optegydd?	Ydw neu Nac ydw	
Ydych chi'n meddwl eich bod yn wynebu unrhyw rwystrau o ran cael mynediad at ofal iechyd?	Ydw neu Nac ydw	
Os ydych, nodwch pam (ticiwch bob un sy'n berthnasol)	Diffyg preifatrwydd	
	Materion llythrennedd – anawsterau wrth lenwi ffurflenni	
	Hiliaeth – gwahaniaethu neu ragfarn	
	Diffyg gwybodaeth ddiwylliannol gan y darparwr gwasanaeth	
	Methu cael apwyntiad	
	Methu gweld ymarferydd sydd o'r un rhyw â fi	
	Staff yn y dderbynfa ddim yn hawdd mynd atynt	
	Oriau agor y gwasanaeth	
	Materion trafnidiaeth	
	Materion gofal plant	
	Dealltwriaeth am y drefn apwyntiadau	
	Pa wasanaethau gofal iechyd fydd yn dod i ymweld â chi?	Meddyg Teulu
Ymwelydd Iechyd		
Bydwraig		
Nyrs Ardal		
Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol, e.e. Marie Curie		
Ydych chi'n gallu mynd adref yn rhwydd o apwyntiadau gofal iechyd?	Ydw neu Nac ydw Os nad ydych, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Beth ydych chi'n ei wybod am eich iechyd?		
Sut fydddech chi'n diffinio lefel eich iechyd cyffredinol?	Da iawn	
	Da	
	Gweddol	
	Gwael	
	Gwael iawn	

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Oes gennych chi unrhyw broblem iechyd, anabledd neu salwch hirdymor (y diffiniad o gyflwr iechyd hirdymor yw cyflwr sy'n cyfyngu ar fynediad at waith ac yn gosod cyfyngiadau ar weithgareddau sy'n rhan o fywyd beunyddiol am un flwyddyn neu fwy)	Oes neu Nac oes Dyma enghreifftiau: Awtistiaeth Asthma, Broncitis, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint Arthritis Diabetes Epilepsi Problemau gyda'ch clyw Problemau gyda'ch golwg Problemau gyda'ch calon Problemau symudedd Strôc Arall – Rhowch fanylion	
Ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn?	Os ydych, rhowch fanylion	
Lles meddyliol Mae'r cwestiynau hyn wedi'u bwriadu i ganfod arwyddion o straen, gorbryder ac iselder		
A fydd pethau'n mynd yn drech na chi weithiau?	Bydd neu Na fydd. Os byddant, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Fyddwch chi'n edrych ymlaen at bethau?	Byddaf neu Na fyddaf Os na fyddwch, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Ydych chi'n hapus ar y cyfan?	Ydw neu Nac ydw. Os nad ydych, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Os ydych wedi cael diagnosis bod arnoch angen help gyda'ch lles meddyliol, ydych chi'n cael y cymorth a/neu'r feddyginiaeth y mae ei (h)angen arnoch?	Ydw neu Nac ydw. Os nad ydych, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Sgrinio/profion diagnostig		
Ydych chi erioed wedi cael cynnig profion neu wedi cael eich profi am unrhyw rai o'r cyflyrau canlynol:	Clefyd cardiofasgwlaidd (y galon)	
	Clefyd yr ysgyfaint (h.y. emffysema, broncitis ac asthma)	
	Diabetes	
	Pwysedd gwaed	
	Colesterol uchel	
	Sgrinio'r coluddyn	
	Sgrinio am unrhyw fath o ganser	
	Sgrinio ar gyfer Ymlediadau	

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

	Aortig Abdomenol	
	Menywod yn unig – prawf ceg y groth	
	Menywod yn unig - mamogram	
	Dynion yn unig – archwilio'r prostad	
Ydych chi wedi cael brechlyn rhag y ffliw?	Do neu Naddo	
Hybu iechyd – gofalu amdanoch chi eich hun		
Ydych chi'n ysmygu?	Ydw neu Nac ydw	
Os ydych, beth ydych chi'n ei ysmygu a faint ydych chi'n eu hysmygu bob dydd?	Sigarennau	
	Sigarennau rholio	
	Sigarau	
	Pibell	
	E-sigarennau	
Ydych chi'n yfed?	Ydw neu Nac Ydw	
Os ydych, beth ydych chi'n ei yfed a faint o ddiodydd ydych chi'n eu hyfed bob dydd?	Cwrw a lager	
	Gwinoedd	
	Gwirodydd	
Ydych chi'n meddwl eich bod yn bwyta'n iach?	Ydw neu Nac ydw	
Disgrifiwch eich diet. Pa fath o fwydydd ydych chi'n eu bwyta?		
Ydych chi'n gwneud ymarfer corff o gwbl?	Ydw neu Nac ydw	
Os ydych, pa fath o ymarfer corff ydych chi'n ei wneud, am faint o amser a pha mor aml?		
Ydych chi'n defnyddio unrhyw gyffuriau anghyfreithlon?	Ydw neu Nac ydw	
	Os ydych, rhowch fanylion gan ddweud pa mor aml	
	Canabis/Marijuana	
	Speed/Amffetaminau	
	Cocên	
	Heroin	
	LSD	
	Arall	
Gofal yn yr Ysbyty / Uned Achosion Brys / Y Tu Allan i Orlau Arferol		
Yn y 12 mis diwethaf a fuoch chi yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu'r Adran Anafiadau fel claf?	Do neu Naddo	
A fuoch chi yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu'r Adran Anafiadau am eich bod wedi methu gweld meddyg teulu?	Do neu Naddo	
Faint o weithiau ar y cyfan yn y 12 mis diwethaf ydych chi wedi defnyddio'r Adran		

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Damweiniau ac Achosion Brys neu'r Adran Anafiadau fel claf?		
Yn ystod y 12 mis diwethaf ydych chi wedi bod yn yr ysbyty fel claf dydd?	Do neu Naddo	
Faint o weithiau ar y cyfan yn y 12 mis diwethaf ydych chi wedi bod yn yr ysbyty fel claf dydd?		
Yn ystod y 12 mis diwethaf ydych chi wedi bod yn yr ysbyty fel claf mewnol ac wedi aros dros nos neu'n hwy?	Do neu Naddo	
Os oes angen triniaeth feddygol arnoch gyda'r nos neu ar benwythnosau, ble ydych chi'n mynd? Er enghraifft, ble fydddech chi'n mynd os oedd gennych chi boenau yn y frest neu problem wrth anadlu?	Adran Damweiniau ac Achosion Brys mewn ysbyty	
	Ffonio Galw'r GIG	
	Gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau arferol	
	Arall – rhowch fanylion	
Ble y mae'n well gennych gael gwasanaethau iechyd?	Yn eich cartref?	
	Mewn cyfleuster cymunedol? Er enghraifft, ar y safle.	
	Mewn meddygfa deulu?	
	Mewn ysbyty?	
	Arall – rhowch fanylion	
Oes gennych unrhyw broblemau o ran defnyddio Adran Damweiniau ac Achosion Brys mewn ysbyty	Oes neu Nac oes	
	Os oes, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Ydych chi'n gallu defnyddio Galw'r GIG?	Ydw neu Nac ydw	
	Os nad ydych, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
	Cost galwadau ar ffôn symudol?	
	Ddim yn gwybod y rhif ffôn?	
Fyddwch chi byth yn ffonio am ambiwlans mewn argyfwng neu pan fo rhywun wedi cael damwain?	Byddaf neu Na fyddaf	
	Os byddwch, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
A fydd ambiwlansys yn dod i'ch cartref?	Byddant neu Na fyddant	
	Os na fyddant, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Gofalu am eraill gartref		
Ydych chi neu a yw unrhyw un sy'n byw gyda chi yn ofalwr?	Ydw/Ydy neu Nac ydw/Nac ydy	
	Os ydych chi neu rywun sy'n	

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

Mae 'gofalu' yn cynnwys coginio, siopa, golchi, rhoi lifftiau i rywun na fyddai'n gallu ymdopi heb eich cymorth chi. Ystyr 'gofalwr' yw rhywun o unrhyw oedran sy'n rhoi gofal di-dâl i berthynas, ffrind neu gymydog sy'n sâl, yn fregus neu'n anabl	byw gyda chi yn ofalwr, rhowch ddisgrifiad gan gynnwys bras amcan faint o amser bob dydd a ddefnyddir yn cyflawni tasgau gofalu.	
A oes unrhyw un yn eich aelwyd sy'n dibynnu ar gael gofal gan rywun arall?	Oes neu Nac oes	
Damweiniau / Iechyd a Diogelwch yn y cartref		
Ydych chi neu unrhyw un yn eich teulu wedi cael unrhyw ddamweiniau ar y safle yma oherwydd problemau gyda'r amgylchedd?	Do neu Naddo Os ydych, wnewch chi roi disgrifiad a dweud mwy. Ydy'r damweiniau'n ymwneud â phroblemau gyda'r amgylchedd?	
Ydych chi'n pryderu ynghylch unrhyw beryglon i iechyd ar y safle lle'r ydych yn byw?		
Gwaith		
Mae'r cwestiwn yma wedi'i fwriadu i ganfod unrhyw risgiau i iechyd a achosir gan waith.		
Pa fath o waith mae'r dynion a'r bechgyn yn eich teulu'n ei wneud?		
Bywyd teuluol a diogelwch yn y cartref		
Mae'r cwestiynau hyn wedi'u bwriadu i ganfod arwyddion o gam-drin domestig. Yn amlwg, bydd gofyn bod yn sensitif wrth ofyn y cwestiynau hyn.		
Sut mae'r perthnasoedd yn eich teulu? A yw pawb yn cyd-dynnu?	Ydyn neu Nac ydyn Os nad ydynt, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Ydych chi'n teimlo'n ddiogel?	Ydw neu Nac ydw Os nad ydych, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Sut ydych chi'n teimlo am eich bywyd a'ch teulu?		
Beichiogrwydd, gofal cynenedigol ac ôl-enedigol		
Pan oeddech yn feichiog, a gawsoch chi'r holl gymorth yr oedd ei angen amoch gan eich Meddyg, Bydwraig neu unrhyw un arall?	Do neu Naddo Os na chawsoch chi, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
Pan gawsoch eich baban, a	Do neu Naddo	

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

gawsoch chi'r holl gymorth yr oedd ei angen arnoch gan eich Meddyg, Bydwraig, Ymwelydd Iechyd neu unrhyw un arall?	Os na chawsoch chi, wnewch chi roi esboniad a dweud mwy.	
A gafwyd unrhyw farwolaethau amenedigol yn y teulu?	Do neu Naddo	
Plant a Phobl Ifanc Mae'r cwestiynau uchod yr un mor berthnasol i blant a phobl ifanc ag ydynt i oedolion ond ceir rhai cwestiynau penodol i blant a phobl ifanc isod.		
Ydych chi/a yw eich plant wedi cael eich/eu holl frechlynnau/ imiwneiddiadau? Dyma'r pigladau sydd wedi'u rhestru yn y llyfr coch neu'r cofnod a ddelir yn y llaw.	Do neu Naddo	
Os nad ydych/ydynt, pa frechlynnau/ imiwneiddiadau sy'n dal heb eu rhoi?	Brechlyn 5 mewn 1 - Mae'n amddiffyn rhag difftheria, tetanws, y pas, polio a hib (haemophilus influenza math B) Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 2, 3 a 4 mis oed.	
	Brechlyn niwmococol neu niwmo (PCV) – Mae'n amddiffyn rhag rhai mathau o haint niwmococol Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 2, 4 a 12-13 mis	
	Brechlyn rotafirws - Mae'n amddiffyn rhag haint rotafirws, achos cyffredin dolur rhydd a chyfog yn ystod plentyndod Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 2 a 3 mis	
	Meningitis C (Men C) – Mae'n amddiffyn rhag Meningitis C (Meningococol math C) Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 3 mis ac fel pigiad atgyfnerthu yn yr arddegau pan fo plentyn yn 13-15 mlwydd oed (o fis Medi 2013)	
	Hib/Men C (pigiad atgyfnerthu) Mae'n amddiffyn rhag haemophilus influenza math b (Hib) a Meningitis C	

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

	Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 12-13 mis oed	
	MMR – Mae'n amddiffyn rhag y frech goch, y dwymyn doben a rwbela Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 12-13 mis ac yn 3 blwydd a 4 mis oed, neu rywbryd wedi hynny	
	Brechlyn y fflw Mae'n amddiffyn rhag y fflw Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 2, 3 a 4 blwydd oed yn flynyddol fel chwistrelliad yn y trwyn ym mis Medi/Hydref Cynigir hwn hefyd trwy Wasanaeth Cenedlaethol Ychwanegol o Bractis Meddyg Teulu i blant Blwyddyn 7 (11 a 12 mlwydd oed) nad ydynt yn mynychu'r ysgol	
	Pigiad atgyfnerthu 4 mewn 1 cyn-ysgol - Mae'n amddiffyn rhag difftheria, tetanws, y pas a polio Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 3 blwydd a 4 mis oed, neu'n fuan wedyn	
	Brechlyn HPV (merched yn unig) – Mae'n amddiffyn rhag canser ceg y groth Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 12-13 mlwydd oed	
	Pigiad atgyfnerthu 3 mewn 1 yn yr arddegau Mae'n amddiffyn rhag tetanws, difftheria a polio Fe'i rhoddir pan fo plentyn yn 13-18 mlwydd oed	

Atodiad 6 – Cwestiynau wrth ddatblygu gwasanaethau i BILlau

Mae'r Atodiad hwn yn rhoi cyngor ynghylch y mathau o gwestiynau a materion y dylid eu hystyried wrth ddatblygu gwasanaethau iechyd i Sipsiwn a Theithwyr.

Poblogaeth

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

- Beth ydych chi'n ei wybod am y Sipsiwn a Theithwyr yn eich ardal leol? *Dylech gynnwys y rhai sy'n byw mewn llety (tai) 'brics a mortar' a'r rhai sy'n byw wrth ymyl y ffordd yn ogystal â'r rhai sy'n byw mewn safleoedd awdurdodedig gan yr awdurdod lleol ac ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr.*
- Pa gysylltiadau sydd gennych â sefydliadau cenedlaethol a lleol presennol sy'n cynrychioli Sipsiwn a Theithwyr?

Penderfynyddion iechyd cymdeithasol ac economaidd ehangach

- Beth ydych chi'n ei wybod am y math o waith y maent yn ei wneud?
- Sut mae dod o gymuned Sipsiwn neu Deithwyr yn effeithio ar iechyd a lles?
- Sut mae'r amodau y maent yn byw ynddynt yn effeithio ar eu hiechyd, yn gorfforol ac yn feddyliol?
- Beth yw effaith eu profiadau o hiliaeth?

Ffyrdd o fyw a hybu iechyd

- Sut mae ffyrdd o fyw ac ymddygiad yn effeithio ar iechyd Sipsiwn a Theithwyr?
- Pa wasanaethau sy'n helpu i atal afiechyd e.e. Gwasanaethau cymorth y trydydd sector?

Statws iechyd a lles

- Pa anghenion o ran iechyd meddwl a chorfforol a gofal cymdeithasol sydd gan Sipsiwn a Theithwyr yn eich ardal chi?
- A oes unrhyw wybodaeth am achosion marwolaeth ymhlith y boblogaeth leol hon?

Defnyddio gwasanaethau

- Pa wasanaethau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu defnyddio? Dylech gynnwys gwasanaethau cymorth eang sy'n diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Beth sy'n gwneud y gwasanaethau hyn yn hygyrch?
- A oes unrhyw rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau?
- Beth yw'r bylchau mewn gwasanaethau ar hyn o bryd ar gyfer y boblogaeth hon a beth yw eu hanghenion tebygol yn y dyfodol?
- A yw'r Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal yn symud yn aml? *Dylech ystyried sut y gellir alinio gwasanaethau ag asiantaethau eraill, yn lleol ac ar draws siroedd.*

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

- Pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau iechyd a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?

Teithio at Iechyd Gwell

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr

- Dylech ystyried a yw'r gwasanaethau'n diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr a pha mor dda y mae'r gwasanaethau presennol yn cael eu defnyddio.
- Beth yw'r prif achosion afiechyd y mae angen mynd i'r afael â hwy?
- Sut ellir targedu buddsoddiad yn well yn y dyfodol i ddiwallu anghenion o ran iechyd a lles?
- Sut y mae Sipsiwn a Theithwyr ac unrhyw asiantaethau lleol sy'n eu cefnogi wedi cynorthwyo i lunio'r blaenoriaethau hyn ar gyfer y dyfodol?

Teithio at lechyd Gwell

**Canllawiau i Ymarferwyr Gofal lechyd ar weithio'n effeithiol
gyda Sipsiwn a Theithwyr**